

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Lyn Jones (Llanfair) ddechrau mis Awst. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i theulu, gan weddio y byddant yn profi Duw yn dda wrthynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag Alyson Haf Jones (Llansannan) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei mam yr wythnos ddiwethaf. Gweddiwn y byddant hwythau yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Mae sawl un wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr haf. Mae Maldwyn Jones (Cefn Berain), Trefor Jones (Nantglyn), a Selwyn Davies ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) wedi treulio nifer o wythnosau yn derbyn gofalu yn yr Inffirmari. Cafodd Liz Pritchard (Llanefydd) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac yno hefyd am ychydig ddyddiau y bu Megan Evans a Mona Williams (Llansannan). Mae Heulwen Thomas (Llansannan) yn parhau i gael gofalu yno ac rydym yn ei chofio hi a'r teulu'n gyson yn ein gweddiâu'r diwrnodau hyn. Mae eraill heb fod yn dda eu hiechyd, rhai wedi cael anffawd, ac eraill yn derbyn triniaethau tymor hir. Cofiw'n amdanynt oll a chyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi grym ein gweddiâu drostynt.
- Erbyn hyn, mae Maldwyn Jones (Cefn Berain) wedi symud i gartref Plas Eleri yn Ninbych. Gweddiwn y bydd ef, a Meira a'r plant sydd wedi gofalu mor dyner amdano dros y blynyddoedd diwethaf, yn profi o ddaioni Duw wrth iddo setlo yn y cartref. Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofalu – Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Mr R. J. Davies (Coed Isaf); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofalu y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau (hwyr!) i Elfed H. Williams (Cefn Meiriadog) a Mair Williams (Llansannan) sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar!
- Estynnwn ein dymuniadau gorau i Philip Lloyd (Groes) a Siwan ar achlysur genedigaeth mab – Alffi Wiliam. Gweddiwn dros y teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

## I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Iau, Medi 18fed. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- **CWRDD CHWARTER** yn cyfarfod ar y cyd â Chyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint yng Nghapel Pendref, Rhuthun nos Iau, Medi 25ain am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Ddr Geraint Tudur a'r Parch. Robin Samuel.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26ain-27ain yn y Bala ar gyfer pobl o bob oed, yn deuluoedd ac unigolion, ac i ffrindiau hen a newydd. Y siaradwr fydd y Parch. Hywel Meredydd. Enwau erbyn Medi 12fed, os gwelwch yn dda.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7<sup>fed</sup> Medi 2014

Darlleniad y Dydd

Ioan 15:11-17

(BCND tud.120 / BCN: tud.110)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd ac i'r "Llais Bro Aled" cyntaf ar ôl yr haf. Wrth edrych yn ôl dros yr haf rhyw gymysgedd o'r llon a'r lleddf sydd gennyf. Profi colledion ar ddwy ochr i'n teulu a phrofi llawenydd ysbaid a gwyliau a chael gweld rhannau newydd o Gymru o gylch Dolgellau ac ambell i le cyfarwydd hefyd fel Ynys Enlli! Mae geiriau Salm 8 mor wir – "Arglwydd ein lôr ni, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!" Mae Cymru fach yn wlad dlos eithriadol a fedrwn ni ddim llai na rhyfeddu at allu Duw ym mhob agwedd o'i waith yn creu ac yn cynnal ac yn gwaredu! Rhown ein calon a'n genau ar waith heddiw i'w foli a'i ganmol wrth i ni gyd-addoli.

Wrth edrych ymlaen rhwng rwan a'r Nadolig, os Duw a'i myn, mae yna lawer iawn ar y gweill a llawer o gyfleon i ni weithio hefo'n gilydd. Mae'n dda atgoffa'n hunain weithiau ein bod wedi ein galw gan Dduw i bwrpas, ac un pwrpas mawr ydi'r gwaith o rannu'r newyddion da am Iesu a'i fuddugoliaeth hefo pobl eraill gan ddisgwyl ymateb. Bydd yr ymateb yn debyg i'r hyn sy'n digwydd i'r had yn nameg yr heuwr. Fel y gwelwn yn y darlleniad heddiw – dwyn ffrwyth yw'r nod.

Rydan ni'n cynllunio felly i ganolbwyntio dros y misoedd nesaf ar y gwaith o rannu'r ffydd sydd gennym ni yng Nghrist hefo pobl eraill. Rydan ni am gymryd, fel sail i'r gwaith yr enghreifftiau hynny sydd wedi eu cofnodi yn y Testament Newydd o Grist yn rhannu'r gwirionedd amdano'i hun hefo unigolion. Gallwn feddwl am amryw – y wraig o Samaria wrth y ffynnon, Saceus, Nicodemus, a sawl un arall. Dwyn gwersi i ni o'r sgysiau rheini fydd ffocws ein pregethu yn oedfaon y Fro ar nos Sul a'n sesiynau hyfforddi misol wedyn.

Wnewch chi weddio am arweiniad yr Ysbryd i'n goleuo a'n cymell at y gwaith hwn? Byddwn yn gweddio hefyd ar i'r Ysbryd agor cyfleon i ni i rannu ein ffydd gydag argyhoeddiad mawr a hyder yng ngogoniant person ein Harglwydd a'i waith bendigedig. Gweddiwn gan ddisgwyl ei weld yn bendithio'n helaeth.

Dymunwn fendith Duw ar ein hoedfaon heddiw hefyd felly a chofiw'n am y rhai sy'n parhau i wynebu treialon a chystuddiau o bob math gan eu codi i ofal yr Arglwydd yn ein gweddiâu. Mae cymaint o'r Fro wedi llwyddo hefyd dros yr haf yn yr ysgolion a'r colegau, mewn gŵyl, sioe ac Eisteddfod nes y byddai'n amhosibl rhestru pawb! Ond llongyfarchiadau i chi i gyd a diolchwn i Dduw am ei ras tuag atom!

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aneurin, bydd Rhodri yn pregethu, ac fe weinyddir y Cymun.
- Iau • **Pwyllgor Gwaith y Cwrdd Chwarter** yn Festri Lôn Swan, Dinbych am 7.00.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn • **O Eglwys i Eglwys Awn.** Tro hwyliog, hamddenol a diddorol i greu cadwyn rhwng wyth o gapeli'r Ofalaeth. Cychwyn o'r Waen, Nantglyn am 8.30 gan orffen yng Nghefn Meiriadog tua 4.30 y pnawn. Os am ddod, ac i gael mwy o fanylion, rhaid cysylltu efo Rhys Dafis (01745 870362 neu [rhysdafis@aol.com](mailto:rhysdafis@aol.com)) erbyn nos Fercher 10fed, er mwyn gallu trefnu ceir.
- Sul nesaf • **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Joseff Edwards yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac oedfa deuluol yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith ac yn gweinyddu'r Cymun yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Dona a Kevin yn cyflwyno Lela Mair i'w bedyddio.
- Llun Bydd Pwyllgor Blynyddol yr Ysgol Sul yn y Granar am 8.00. Croeso i bawb.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn **Saron** am 10.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD) a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Saron a chynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd a'r oedolion am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno am 10.45.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Iago 1:22-27 (BCND tud.251 / BCN: tud.231)